# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 8

ADOLYGIADAU AC APELAU

### [[F1]PENNOD 3A

TALU AC ADENNILL TRETH DDATGANOLEDIG
[[F1]ETC] SY'N DESTUN ADOLYGIAD NEU APÊL

#### [[F1]181D Cais hwyr i ohirio

(1) Pan fo person—

(a) yn gwneud cais am adolygiad cyn diwedd y cyfnod a bennir yn adran 174, a

(b) yn gwneud cais i ohirio sy'n gysylltiedig â'r adolygiad ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw,

ni chaiff ACC ystyried y cais i ohirio onid yw'n fodlon bod yr amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni.

(2) Pan fo person—

(a) yn gwneud apêl cyn diwedd y cyfnod a bennir yn adran 179, a

(b) yn gwneud cais i ohirio sy'n gysylltiedig â'r apêl ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw,

ni chaiff ACC ystyried y cais i ohirio onid yw'n fodlon bod yr amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod gan y person sy'n gwneud y cais i ohirio esgus rhesymol dros beidio â gwneud y cais yn ystod y cyfnod a bennir yn adran 174 neu 179, yn ôl y digwydd, a

(b) wedi hynny, bod y person sy'n gwneud y cais i ohirio wedi gwneud y cais heb oedi afresymol.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhn. 8 Pnd. 3A wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 63**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 181D.